# Croeso i Dŷ Birchwood







## Derbynfa

Mae'r dderbynfa ar agor rhwng 08:00 a 18:00, ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae'r dderbynfa ar gau ar benwythnosau a gwyliau banc, oni bai bod eich bod wedi gwneud trefniadau ymlaen llaw.

Y tu allan i'r oriau hyn, gallwch gysylltu â'r tîm Diogelwch ar: +44 (0)29 2087 4444.

Mae'r Dderbynfa yn Neuadd y Brifysgol, Birchwood Lane, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 5YB.

Ffôn: +44 (0)29 2251 0597.

## Parcio

Y cyntaf i'r felin fydd hi wrth barcio ar y campws. Parciwch ym maes parcio'r Ganolfan Gynadleddau - Defnyddiwch y côd post **CF23 5LJ.**

Am fanylion ar sut i gadw lle ymlaen llaw a thalu am barcio, gweler Gwybodaeth Parcio

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, e-bostiwch conference@caerdydd.ac.uk

## Gwybodaeth Leol

I'r rheini fydd yn teithio ar drên neu ar fws i Gaerdydd, mae tacsis ar gael yng nghanol y ddinas, mae'r prisiau'n amrywio gan ddibynnu ar y pellter a llif y traffig. Gofynnwch i'r gyrrwr eich gadael chi wrth fynedfa Bloc y Tŵr.

Am wybodaeth ynglŷn â theithio ar fws, defnyddiwch y ddolen ganlynol Bws Caerdydd

# Ar yr M4 o'r Gorllewin

- Gadewch yr M4 wrth Gyffordd 30, Dwyrain Caerdydd (Gwasanaethau Porth Caerdydd)
- Cymerwch y 3ydd ffordd ymadael wrth y gylchfan, gan ddilyn arwyddion ar gyfer yr A4232, ewch yn eich blaen i'r gylchfan nesaf yna cymerwch yr 2il ffordd ymadael, i gyfeiriad Caerdydd (D) / A4232
- Ewch ar yr ail ffordd ymadael gan ddilyn arwydd Canol y Ddinas / Llanedeyrn / Pentwyn (A48)
- Dilynwch yr A48 i gyfeiriad Caerdydd am oddeutu ½ milltir
- Gadewch wrth y gyffordd gan ddilyn arwydd Caerdydd (E) / Dociau / A4232
- Ewch oddi ar y gylchfan ar y drydedd ffordd ymadael, gan ddilyn arwydd Llanedeyrn
- Cymerwch yr allanfa 1af wrth y gylchfan nesaf gan ddilyn arwydd Cyncoed
- Ewch yn eich blaen ar Heol Llanedeyrn am tua ¾ milltir, nes i chi gyrraedd set o oleuadau traffig
- Trowch i'r dde wrth y goleuadau traffig ar Heol Cyncoed
- Cymerwch y trydydd troad ar y chwith i Ffordd Tŷ Gwyn
- Ar ôl tua 200 llath, trowch i'r dde ar Ffordd Birchwood
- Ewch ar yr heol gyntaf i'r dde i fynd i Faes Parcio'r Ganolfan Gynadleddau.

# Ar yr M4 o'r Dwyrain

- Gadewch yr M4 wrth gyffordd 29 (Dwyrain a De Caerdydd) i'r A48(M)
- Dilynwch yr A48 tuag at Gaerdydd am 5 milltir ac ymadael pan welwch yr arwydd ar gyfer Caerdydd (D) / Dociau / A4232
- Ewch oddi ar y gylchfan ar y drydedd ffordd ymadael gan ddilyn arwydd Llanedeyrn
- Fel uchod

Cewch hyd i'r wybodaeth yma ar y gwefannau canlynol hefyd (**CF23 5LJ yw'r côd post ar gyfer eich SatNav**):


This information can also be found via the following websites (**SatNav postcode is CF23 5LJ**):


[www.rac.co.uk/route-planner](http://www.rac.co.uk/route-planner)

[www.theaa.com/travelwatch/planner_main.jsp](http://www.theaa.com/travelwatch/planner_main.jsp)

Cyfeirnod 51 yw Neuadd y Brifysgol ar y map

University Hall map ref 51




University Hall
CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD
To University
To M4 East/West
To Shops and City Centre
BIRCHWOOD ROAD
BIRCHWOOD LANE
TY-GWYN ROAD
A Main Entrance
B Birchwood House Entrance
C Conference Centre Entrance
R Reception
P Parking
Disabled Parking
E Exhibitor's Loading Bay
L Launderette
G Multi Use Games Area
S Social Lounge
Residences
1 Tower (ensuite)
2 East Wing
3 Garden Wing
4 Ty Gwyn
5 Birchwood
6 Coachman's (ensuite)
7 Nevern
8 Dwyfor (ensuite)
9 Warden's House
Conference Facilities
10 Birchwood House Meeting Rooms
11 Conference Centre